Hawdd ei Ddeall

# Gofal Iechyd GIG Parhaus

## 5. Beth sydd yn digwydd os nad ydw i'n gymwys ar gyfer GIP?



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r **Llyfryn Gwybodaeth am Ofal Iechyd GIG Parhaus ar gyfer Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr**.

**Hydref 2022**

# Cynnwys

**Tudalen**


**Am y llyfryn yma.........................................................3**

**Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n gymwys i gael GIP?...............................................................6**

Gofal Nyrsio wedi ei Ariannu.................................8

**Herio penderfyniad................................................10**

Cam Adolygu Lleol..............................................13

Panel Adolygu Annibynnol.................................13

Pwy sy'n talu am eich gofal tra rydych chi'n aros am ganlyniad eich apêl?..................14


Ôl-adolygiadau......................................................15

Cam 1 o'r Ôl-adolygiad.......................................18

Cam 2 o'r Ôl-Adolygiad.......................................19

**Geiriau anodd........................................................23**

# Am y llyfryn yma




Mae'r llyfryn yma yn **rhan 5** o 5 canllaw hawdd eu deall i Ofal Iechyd GIG Parhaus.




Mae wedi ei ysgrifennu ar sail sydd wedi cael ei ysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Rydych chi'n gallu darllen y canllaw gwreiddiol yma: llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr.

Mae 5 llyfryn hawdd eu deall:

**1. Beth ydy Gofal Iechyd Parhaus (GIP)?**

**2. Canllaw hawdd ei ddeall i asesiadau GIP**

**3. Pwy sydd yn gymwys i cael GIP?**

**4. Sut mae GIP yn cael ei drefnu?**

**5. Beth sydd yn digwydd os nad ydw i'n gymwys i gael GIP?**




Maen nhw ar gael yma: llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr.

Mae'r llyfryn yma wedi cael ei wneud yn hawdd ei ddeall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Llywodraeth Cymru os ydych chi angen y llyfryn yma mewn unrhyw fformat arall.




Mae gwybodaeth am Ofal Iechyd GIG Parhaus ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yma: llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr.

**Neu rydych chi'n gallu cysylltu gyda Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth:**



**Drwy'r post:** Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



**Ar y ffôn:** 0300 0604400

**Drwy e-bost:** Cymorth@llyw.cymru



Mae gwybodaeth gyswllt ar gyfer eich bwrdd iechyd lleol ar gael yn **llyfryn 1 tudalen 16**.




Neu maen nhw ar gael ar wefan **Galw Iechyd Cymru**: 111.wales.nhs.uk/localservices/localhealthboards?locale=cy&term=A

# Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n gymwys i gael GIP?



Mae **cymwys** yn meddwl bod gennych chi hawl i gael GIP oherwydd eich bod yn ateb yr holl amodau.

Dim ond 1 amod rydych chi ei angen i fod yn **gymwys** ar gyfer GIP. Rhaid i chi fod ag **angen iechyd sylfaenol**.



Os nad ydych chi'n **gymwys** ar gyfer GIP, y rheswm ydy **nad** oes gennych chi angen iechyd sylfaenol.



Os felly mae eich Awdurdod Lleol yn gallu bod yn gyfrifol am eich gofal a'ch cymorth.



Ond efallai bod gennych chi anghenion iechyd nad ydy eich Awdurdod Iechyd yn gallu eu hateb.



Fe fydd eich Awdurdod Iechyd yn gweithio gyda'ch Bwrdd Iechyd Lleol i ateb yr anghenion hynny.

# Pecynnau gofal a chymorth ar y cyd



Pan mae eich Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu eich gofal a'ch cymorth, mae'n cael ei alw yn **becyn gofal a chymorth ar y cyd**.




Fe fyddan nhw yn cytuno ar eich pecyn gofal a phwy fydd yn talu am ba rannau o'ch gofal.




Mae gofal sydd yn cael ei ddarparu gan eich Bwrdd Iechyd Lleol am ddim.




Mae gofal sydd yn cael ei ddarparu gan eich Awdurdod Lleol yn dibynnu ar **brawf modd**.

Mae **prawf modd** yn meddwl bod y swm o arian sydd gennych chi yn gallu effeithio ar a ydych chi'n gallu cael rhywbeth am ddim neu beidio. Neu a oes rhaid i chi dalu rhywfaint tuag ato.

Mae eich **modd**, neu eich arian, yn cynnwys pethau fel faint rydych chi'n ei ennill, faint o arian sydd gennych chi mewn cynilion a faint rydych chi'n berchen arno.



Mae hyn yn meddwl y bydd rhaid i chi efallai dalu tuag at y gofal sydd yn cael ei ddarparu gan eich Awdurdod Lleol.



Ddylech chi ddim gorfod aros yn hirach am eich gofal tra bod yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ei drefnu.

## Gofal Nyrsio wedi ei Ariannu



Os **nad** ydych chi'n **gymwys** ar gyfer GIP, efallai y byddwch chi'n gallu cael **Gofal Nyrsio wdi ei Ariannu gan y GIG**.



Fe fydd hwn yn cael ei dalu os ydy eich **asesiad** GIP yn dangos eich bod chi angen gofal nyrsio mewn cartref gofal.





**Asesiad** ydy pan mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn dod at ei gilydd i benderfynu beth ydy eich anghenion. A sut y dylai eich anghenion gael eu hateb.




Mae **Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu gan y GIG** yn swm sydd yn cael ei dalu i'ch cartref gofal bob wythnos.



Dydy **Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu gan y GIG** ddim yn effeithio ar eich budd-daliadau.



Fe ddylai **Gofal Nyrsio wedi ei Ariannu gan y GIG** leihau'r gost mae angen i chi ei dalu am eich cartref gofal.



Fe ddylai eich cartref gofal roi datganiad ysgrifenedig i chi sy'n dangos yn glir faint o'ch costau cartref gofal sydd yn cael eu talu:

- gennych chi




- gan y GIG
- gan eich Awdurdod Lleol



Rydych chi'n gallu gofyn iddyn nhw am ddatganiad os nad ydych chi wedi cael un.

# Herio penderfyniad



Os ydy eich Bwrdd Iechyd Lleol wedi penderfynu nad ydych chi’n **gymwys** ar gyfer GIP, a dydych chi ddim yn cytuno, mae gennych chi hawl i **apelio**.

Mae **apêl** yn ffordd ffurfiol o ofyn i benderfyniad gael ei edrych arno oherwydd eich bod chi eisiau iddo gael ei newid.



Mae eich Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am edrych ar yr holl **apeliadau**.



Fe ddylen nhw fod â pherson sy’n gyfrifol am **apeliadau** yr ydych yn gallu cysylltu gyda nhw. Rydych chi’n gallu cysylltu gyda’ch Bwrdd Iechyd Lleol i ofyn pwy ydy’r person yma.




Mae manylion cyswllt eich Bwrdd Iechyd Lleol ar gael yn **llyfryn 1 tudalen 16**.




Neu maen nhw ar gael ar wefan Galw Iechyd Cymru: https://111.wales.nhs.uk/localservices/localhealthboards?locale=cy&term=A




Rhaid i chi ddweud wrth eich Bwrdd Iechyd Lleol eich bod eisiau **apelio**. **Rhaid** i chi wneud hyn o fewn **28 diwrnod** o'r dyddiad rydych chi wedi cael clywed am y penderfyniad.



**Rhaid** i chi ysgrifennu eich **apêl** a'i roi i'ch Bwrdd Iechyd Lleol o fewn **6 mis** o'r dyddiad rydych chi wedi cael clywed am eu penderfyniad.

Rydych chi'n gallu gofyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol edrych ar:



- Sut mae'r penderfyniad am eich **cymhwysedd** ar gyfer GIP wedi cael ei wneud – oedd y broses wedi cael ei dilyn yn gywir?




- Oedd eich anghenion wedi cael eu hystyried yn gywir

Ar ôl eich **apêl** os ydych chi yn parhau i fod yn anhapus, rydych chi'n gallu mynd at **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**.


Continuing NHS Healthcare

1. What is Continuing NHS Healthcare?

Am ragor o wybodaeth am hyn ewch i **lyfryn 1 tudalen 22**.

Mae 2 gam i'r **apêl**:



- cam **adolygu lleol**



- a cham **Panel Adolygu Annibynnol**.

## Cam Adolygu Lleol



Ar y cam yma o'ch **apêl**, fe fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn edrych ar eu penderfyniad.



Fe ddylai eich Bwrdd Iechyd Lleol ddweud wrthych chi beth ydy eu proses ar gyfer edrych ar eu penderfyniad. A pha mor hir bydd hyn yn ei gymryd.



Os ydych chi'n anhapus ar ôl y cam yma, fe fydd proses i benderfynu os bydd eich **apêl** yn gallu mynd i'r **Panel Adolygu Annibynnol**.

## Panel Adolygu Annibynnol



Rhaid i'ch Bwrdd Iechyd Lleol gael **Panel Adolygu Annibynnol**.



Grŵp o bobl o'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r Awdurdod Lleol ydy'r rhain.



Fe fyddan nhw yn edrych ar eich **apêl** ac ar y penderfyniad sydd wedi cael ei wneud. Fe ddylen nhw wneud hyn o fewn **4 wythnos** i'r amser y gwnaeth y cam adolygu lleol orffen.

## Pwy sy'n talu am eich gofal tra rydych chi'n aros am ganlyniad eich apêl?



Mae'r penderfyniad nad ydych chi'n **gymwys** ar gyfer GIP yn aros yn ei le hyd nes bydd yr **apêl** wedi gorffen.



Yn ystod yr **apêl**, efallai bydd angen i chi dalu tuag at eich gofal.

# Ôl-adolygiadau




Mae hyn yn digwydd pan mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn edrych yn ôl ar amser pan roeddech chi yn talu am eich gofal, i weld os oes angen iddyn nhw dalu arian yn ôl i chi.



Fe fyddan nhw yn talu arian yn ôl i chi os oeddech chi'n **gymwys** ar gyfer GIP ar yr amser pan roeddech chi yn talu tuag at eich gofal.

Efallai bydd angen i chi ofyn am **ôl-adolygiad** os:




- oedd y Bwrdd Iechyd Lleol wedi gwneud **asesiad** GIP ond bod prawf nad oedd wedi cael ei wneud yn gywir




- oedd yn amlwg eich bod angen **asesiad** GIP ond nad oeddech chi wedi cael un.




Rhaid i chi ddechrau **ôl-adolygiad** o fewn **12 mis** o'r diwrnod olaf o'r amser rydych chi'n hawlio arian yn ôl amdano.




Fe fydd angen i chi roi prawf i'ch Bwrdd Iechyd Lleol o'r ffioedd gofal rydych chi wedi eu talu yn ystod yr amser rydych chi'n hawlio amdano.



Os ydych chi'n hawlio dros rywun arall, mae angen i chi ddangos prawf i'r Bwrdd Iechyd Lleol bod gennych chi hawl i weithredu ar eu rhan yn ôl y gyfraith.



Rhaid i chi ddangos y prawf yma o fewn 5 mis o ddechrau yr ôl-adolygiad.




Fe fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn anfon holiadur atoch chi.



Fe fydd angen i chi lenwi hwn i ddweud pam y dylech chi fod wedi cael GIP yn ystod yr amser rydych chi’n hawlio amdano.



Pan mae’r Bwrdd Iechyd Lleol yn cael eich holiadur, fe fyddan nhw yn gofyn i’ch darparwyr gofal am gofnodion o’ch gofal.

# Cam 1 o'r Ôl-adolygiad



Fe fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn edrych ar gofnodion eich gofal. Fe fyddan nhw'n edrych i weld os oeddech chi'n **gymwys**, gan ddefnyddio'r Offeryn Rhestr Wirio GIP.




Os ydyn nhw'n meddwl **nad** oeddech chi'n **gymwys** ar gyfer gofal GIP yn ystod yr amser rydych chi'n hawlio amdano, fe fydd yr adolygiad yn cael ei gau.



Os ydyn nhw'n meddwl y gallech chi fod wedi bod yn **gymwys** ar gyfer GIP, fe fyddan nhw yn symud i gam 2.



Fe fydd Cadeirydd y **Panel Adolygu Annibynnol** yn edrych ar y penderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud ar y cam yma ac yn eu cadarnhau nhw, os ydy hynny'n briodol.

# Cam 2 o'r Ôl-Adolygiad




Fe fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn ychwanegu unrhyw brawf pellach maen nhw yn gallu ei ddarganfod am eich gofal yn ystod yr amser rydych chi'n hawlio amdano.




Fe fyddan nhw'n edrych ar y cyfan yn erbyn y broses **asesu** GIP arferol.



Fe fyddan nhw'n penderfynu os oeddech chi'n **gymwys** yn ystod yr amser rydych chi yn hawlio amdano drwy edrych ar y prawf sydd ar gael.

Fe fydd canlyniadau'r adolygiad yn 1 o'r pethau yma:



- **cydweddu** – roeddech chi'n **gymwys** ar gyfer GIP yr holl amser roeddech chi yn hawlio amdano



- **Rhannol** – roeddech chi'n **gymwys** ar gyfer GIP am rhywfaint o'r amser rydych chi'n hawlio amdano



- **Dim cymhwysedd** – doeddech chi ddim yn **gymwys** ar gyfer GIP ar unrhyw bwynt o'r amser rydych chi'n hawlio amdano



- **Panel** – dydy'r person neu'r bobl sydd yn edrych ar eich apêl ddim yn gallu penderfynu. Oherwydd nad ydyn nhw'n gallu cytuno neu oherwydd nad ydy'r wybodaeth sydd ar gael ddim yn ddigon clir.

Yn dibynnu ar ganlyniadau eich adolygiad, fe fydd 1 o'r pethau yma yn digwydd nesaf:



- **Cydweddu** – fe fydd eich achos yn mynd ymlaen ac fe fyddwch chi'n cael eich talu yn ôl.



- **Rhannol neu ddim cymhwysedd** – fe fyddwch chi'n derbyn y canfyddiadau ac yn cael cyfle i siarad am beth sydd yn digwydd nesaf.



- **Panel** – fe fydd y Panel Adolygu Annibynnol yn dod at ei gilydd i edrych ar eich achos.



Fe fyddwch chi yn cael eich gwahodd i ddod i siarad am eich achos os oedd canlyniad yr adolygiad yn **rhannol** neu **ddim cymhwysedd**:

**Cymhwysedd rhannol**



Fe fyddwch chi yn siarad am eich achos i geisio cytuno ar amser pan oeddech chi'n **gymwys** ar gyfer GIP.



Os ydych chi'n cytuno fe fydd eich achos yn cael ei roi ymlaen ac fe fyddwch chi yn cael eich talu yn ôl am yr amser rydych chi wedi cytuno arno.



Os nad ydych chi'n cytuno fe fydd eich achos yn cael ei roi i'r Panel Adolygu Annibynnol.

**Dim cymhwysedd**



Fe fyddwch chi'n siarad am eich achos i geisio eich helpu chi i ddeall pam nad oeddech chi'n **gymwys** ar gyfer GIP.



Fe fydd Cadeirydd y Panel Adolygu Annibynnol yn edrych ar bob achos ac yn eu cadarnhau , os ydy hynny'n briodol.

# Geiriau anodd

## Apêl

Apêl ydy ffordd ffurfiol o ofyn i benderfyniad gael ei edrych arno oherwydd eich bod eisiau iddo gael ei newid.

## Asesiad

Asesiad ydy pan mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn dod at ei gilydd i benderfynu beth ydy eich anghenion. A sut y dylai eich anghenion gael eu hateb.

## Cymwys

Mae cymwys yn meddwl bopd gennych hawl i gael GIP oherwydd eich bod yn ateb yr amodau.

## Prawf modd

Mae prawf modd yn meddwl bod y swm o arian sydd gennych chi yn gallu effeithio ar a ydych chi'n gallu cael rhywbeth am ddim neu beidio. Neu a oes rhaid i chi dalu rhywfaint tuag ato.

Mae eich modd, neu eich arian, yn cynnwys pethau fel faint rydych chi'n ei ennill, faint o arian sydd gennych chi mewn cynilion a faint rydych chi'n berchen arno.